

CYNGOR SIR YNYS MON

CYFARFOD:	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DYDDIAD:	19/10/2021
TEITL YR ADRODDIAD :	Adolygiad o Etholaethau Seneddol
ADRODDIAD GAN :	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
SWYDDOG CYSWLLT:	Huw Jones
PWRPAS YR ADRODDIAD :	Adrodd ar yr argymhellion

1.0 Rhagarweiniad

- 1.1 Yn gynharach eleni cyhoeddodd Comisiwn Ffiniau i Gymru dechrau'r broses adolygiad 2023 o etholaethau seneddol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986. Bellach fe gyhoeddwyd cynigion cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 3 Tachwedd.

Ar hyn o bryd mae 40 etholaeth seneddol yng Nghymru ac mae'r cynigion yn awgrymu gostwng hyn i 32 etholaeth. Nid oes newid etholaeth i Ynys Môn ac argymhelliad i newid enw'r etholaeth. Mae copi o adroddiad y Comisiwn Ffiniau i'w weld yn linc yma: https://comffin-cymru.gov.uk/adolygiadau/09-21/arolwg-seneddol-2023-cynigion-cychwynnol?_ga=2.67986324.486883237.1633682094-1323517810.1633682094

Mi fydd Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor wedi cyflwyno achos dros gadw etholaeth Ynys Môn yn 2017 fel rhan o'r adolygiad diwethaf.

2.0 Argymhelliad

- 2.1 Croesawu nad oes unrhyw newidiadau i etholaeth Ynys Môn fel y nodir yn yr ymgynghoriad ac argymhell hyn i'r Cyngor Sir.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
06/10/2021